# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Delyth Hughes**

**Caernarfon**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Manually Insert Date**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Delyth Hughes yn rhedeg gwasanaeth gwarchod plant o'i chartref ar gyrion Caernarfon, Gwynedd, ac mae wedi'i chofrestru i ofalu am hyd at 6 phlentyn o dan 12 oed. Mae'r gwasanaeth ar agor rhwng 08.00– 17.00, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Nid yw'r gwarchodwr plant yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg. Mae'r gwarchodwr plant yn siarad Cymraeg a Saesneg, sy'n golygu mai Cymraeg yw'r iaith a gaiff ei hyrwyddo.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant i gyd yn mwynhau eu hamser gyda'r gwarchodwr plant, ac maent yn hapus ac wedi setlo'n dda. Mae'r amgylchedd yn groesawgar i'r plant ac mae ganddynt amrywiaeth dda o adnoddau sy'n briodol ar gyfer eu chwarae a'u dysgu. Mae angen i'r gwarchodwr plant wneud ychydig o welliannau mewn perthynas â chwblhau asesiadau risg ysgrifenedig yn y cartref ac ar deithiau y tu allan i'r cartref. Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei rôl a'i chyfrifoldebau ar y cyfan ac mae ganddi gydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni. Fodd bynnag, mae angen iddi sicrhau bod unrhyw berson dros 16 oed wedi cael cliriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Uwch, fel sy'n ofynnol.

### 2. Gwelliannau

- Mae'r gwarchodwr plant wedi mynychu cyrsiau mewn perthynas â'i gwasanaeth, gan gynnwys adnewyddu eu hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig, ac
- roedd adnoddau newydd er mwyn i'r plant fanteisio ar eu chwarae a'u dysgu wedi'u prynu.

Yn dilyn yr arolygiad, cawsom gadarnhad ysgrifenedig gan y gwarchodwr plant yr aed i'r afael â'r materion canlynol:

Bod asesiadau risg ar gyfer y safle ac oddi ar y safle wedi'u cwblhau; bod ffurflenni cofnod ymarfer tân ar waith; bod clo bellach wedi'i osod ar y giât i'r ardd; bod poteli wedi'u symud a mesurau diogelwch ar waith i osgoi'r posibilrwydd y caiff plentyn niwed pe bai gwydr yr hen gwpwrdd yn y gegin yn torri.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwelsom nad oedd y gwasanaeth yn bodloni gofynion cyfreithiol o ran nad oedd y gwarchodwr plant wedi sicrhau bod gan berson dros 16 oed dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Uwch, fel sy'n ofynnol. Ni wnaeth hyn effeithio'n andwyol ar ofal y plant, ac felly tynnwyd ei sylw ato er mwyn iddi fynd i'r afael ag ef.

Gwnaed argymhellion mewn perthynas â gwella arferion ym meysydd gofal a datblygu, a'r amgylchedd.

# 1.Llesiant

## Crynodeb

Gall y plant fynegi eu hanghenion a gwneud eu penderfyniadau eu hunain. Maent yn hapus ac yn rhyngweithio'n dda â'r gwarchodwr plant a gyda'i gilydd. Mae'r plant wedi setlo ac yn mwynhau eu gweithgareddau, ac yn dysgu gwahanol sgiliau drwy chwarae.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn barod i leisio barn a gwrandewir arnynt.

Roedd y plant yn cael dewis pa weithgareddau roeddent am gymryd rhan ynddynt, gan y gallant gael gafael ar yr hyn roeddent am ei gael yn hawdd. Er enghraifft, roedd y plant iau yn chwilio drwy focs teganau a daethant o hyd i'w heitem chwarae yn gyflym. Roedd pwysigrwydd yn cael ei roi ar yr hyn roedd ganddynt i'w ddweud, gan fod y gwarchodwr plant yn ymateb yn gadarnhaol i bob ymdrech i gyfathrebu. Clywsom blentyn yn sôn wrth y gwarchodwr plant ei fod braidd yn ofnus o Siôn Corn yn ymweld dros y Nadolig. Teimlodd y plentyn yn well pan wnaeth y gwarchodwr plant ei atgoffa am y trefniadau a roddir ar waith gan ei rieni er mwyn iddo deimlo'n ddiogel.

Mae'r plant yn mynegi eu hunain yn hyderus ac yn gwybod bod yr hyn a ddywedant yn cael ei ddeall a'i barchu.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant wedi setlo; maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn hapus.

Roedd y plant yn deall y drefn ddyddiol, a phan wnaeth y plant hŷn gyrraedd ar ôl ysgol, gwnaethant dynnu eu hesgidiau'n gyflym a'u rhoi o'r neilltu cyn dechrau chwarae. Roedd y plant hŷn yn hapus i gwrdd â'r plant iau, gan roi eu braich o'u cwmpas yn dyner a siarad â nhw, gan ddangos eu bod yn meithrin cyfeillgarwch. Roedd y plant yn teimlo'n ddiogel wrth i'r plant iau estyn eu dwylo pan roeddent am gael cwtsh, ac roeddent yn ymddangos fel petaent yn gartrefol wrth iddynt eistedd ar ben-glin y gwarchodwr plant. Roedd y plant yn teimlo'n gartrefol ac yn falch o gael dangos eu gwaith crefft a oedd wedi'i arddangos yn yr ystafell chwarae i ni, gan roi gwybod i ni pa rai oedd gwaith eu ffrindiau.

Caiff llesiant y plant ei ategu gan y cydberthnasau cadarnhaol sydd ganddynt â'i gilydd a chyda'r gwarchodwr plant.

## 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dysgu i reoli eu rhyngweithio'n gadarnhaol.

Roedd y plant yn gwrtais ac yn ymarfer moesau da. Pan ofynnwyd gan y gwarchodwr plant, dywedodd un o'r plant wrthym sut y gofynnodd i'w ffrind am eitem chwarae. Gydag ychydig o anogaeth, roedd y plentyn yn cofio bod angen iddo ddweud os gwelwch yn dda a diolch, gan ddangos fod y plentyn yn deall sut i ryngweithio ag eraill yn gwrtais a gyda pharch. Roedd y plant i gyd yn garedig i'w gilydd, roedd y plant bach yn gwneud eu gorau i sgwrsio â'r babanod ac roedd y plant i gyd yn cyd-chwarae â'i gilydd yn dda. Roedd y plant yn cydweithio ac yn gwrando ar gyfarwyddyd, er enghraifft, ar ôl gofyn iddynt, aeth y plant iau i nôl eu hetiau a'u cotiau a'u gwisgo, cyn mynd i nôl y plant hŷn o'r ysgol.

Mae'r plant yn dysgu sut i ymddwyn yn gymdeithasol yn llwyddiannus.

## 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn meithrin ymdeimlad o gyflawniad drwy eu chwarae a'u dysgu.

Roedd y plant yn dangos diddordeb mewn gweithgareddau chwarae â phob un ohonynt yn gwenu wrth iddynt chwarae. Gwnaeth y plant hŷn yn canolbwyntio ar eu dewis o weithgaredd a chreu tylwyth teg lliwgar gan ddefnyddio pegiau pren a darnau o ddeunydd ar gyfer twtw. Roedd y plant iau yn mwynhau chwarae â'r teganau cerdd, ac yn enwedig enwi gwahanol anifeiliaid mewn llyfr a dynwared sŵn yr anifeiliaid. Roedd un plentyn yn awyddus i ddangos ei gornel 'deinosoriaid' yn yr awyr agored, a gwelsom ffotograffau ohono'n paentio, yn chwarae gyda cheir a thryciau, ac yn pobi myffins.

Mae'r plant yn llawn cymhelliant ac yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu.

## 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn dilyn eu diddordebau eu hunain ac yn dysgu sgiliau annibyniaeth.

Roedd y plant yn dysgu sgiliau annibyniaeth yn llwyddiannus, megis bwydo eu hunain a dysgu sut i ofalu amdanynt eu hunain yn bersonol. Roeddent yn defnyddio eu dychymyg yn y gegin (chwarae) goch, gan ddefnyddio adnoddau i baratoi bwyd ffug. Roedd y plant yn cael cyfleoedd i gadw'n heini drwy dreulio amser yn yr awyr agored yn chwarae neu'n mynd am dro yn yr awyr iach. Roeddent yn dysgu sut i gadw'n iach drwy fwyta bwyd cartref, ffrwythau ac ysed dŵr. Roedd llawer o gyfleoedd i'r plant gaffael iaith, wrth i'r gwarchodwr plant gael sawl sgwrs gyda nhw, ar eu lefel, ac roedd y plant yn ymateb yn gadarnhaol.

Mae'r plant yn dysgu gwahanol sgiliau drwy eu trefn ddyddiol yn gyson.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae gan y gwarchodwr plant gydberthnasau cadarnhaol â'r plant ac mae'n eu hadnabod yn dda. Ar y cyfan, mae'n sicrhau y caiff y plant eu cadw'n ddiogel ac yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu ystod o weithgareddau ac yn diwallu anghenion unigol y plant. Mae'n annog enghreifftiau o ryngweithio cadarnhaol ac yn fodel rôl da.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Ar y cyfan, mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo arferion iach ac yn cadw'r plant yn ddiogel.

Gwnaethom siarad â'r gwarchodwr plant a oedd yn gwybod beth i'w wneud os oedd ganddi unrhyw bryderon mewn perthynas â diogelu plentyn. Roedd ganddi gymhwyster Cymorth Cyntaf Pediatrig cyfredol sy'n ei galluogi i roi cymorth cyntaf brys, ac roedd ganddi bolisi meddyginiaeth briodol ar waith. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod wedi cynnal ymarferion tân gyda'r plant ond nad oedd y rhain wedi'u cofnodi. Roedd angen iddi wneud rhai gwelliannau o ran ei gweithdrefn newid cewynnau er mwyn bodloni canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar Atal a Rheoli Heintiau yn llawn. Roedd enghreifftiau yn y cofnodion ysgrifenedig dyddiol o fwyd a ddarperir i'r plant yn dangos bod y gwarchodwr plant yn darparu bwyd iachus a dŵr i'w yfed. Cadwyd cofnodion digwyddiadau, damweiniau a meddyginiaeth, a gofynnwyd i'r rhieni lofnodi'r cofnodion i gadarnhau eu bod wedi cael gwybod.

Mae angen i'r gwarchodwr plant gyflawni un gwelliant er mwyn cadw'r plant yn hollol ddiogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo ymddygiad derbyniol ac yn trin y plant â pharch.

Roedd y gwarchodwr plant yn dathlu cyflawniadau'r plant, ac yn diolch iddynt am helpu neu am fod yn garedig i ffrind. Mae'r gwarchodwr plant yn fodel rôl da, yn siarad â'r plant ar eu lefel gan ddefnyddio iaith roedd y plant yn ei deall. Gwnaethom siarad â hi am y polisi rheoli ymddygiad am fod modd ei ddiweddaru er mwyn nodi'n glir y strategaethau sydd ar waith i reoli ymddygiad. Y rheswm dros hyn yw bod y gwarchodwr plant wedi dweud wrthym y byddai bob amser yn esbonio i'r plant a oedd yn ddigon hen i ddeall pam nad oedd ymddygiad penodol yn dderbyniol. Mae angen ychwanegu hyn at y polisi.

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithredu mewn ffordd gyson i reoli rhyngweithio cadarnhaol fel bod y plant yn gwbl ymwybodol o reolau ymddygiad.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r gwarchodwr plant yn ymgysylltu'n dda â'r plant er mwyn hybu eu chwarae, eu dysgu a'u datblygiad, ac mae'n adnabod y plant yn dda.

Roedd y gwarchodwr plant yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau chwarae a dysgu a oedd yn galluogi'r plant i feithrin gwahanol sgiliau dan do ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, aeth hi â'r plant am dro i'r parc lleol, a gwelsom ei bod hi wedi cynllunio eu hystafell chwarae fel y gallent ddewis a chyfarwyddo eu chwarae eu hunain. Roedd cydberthynas gynnes a gofalgar rhwng y plant a'r gwarchodwr plant, a oedd yn eistedd ar lefel y plant i'w helpu yn ôl yr angen neu'n siarad â nhw am bynciau a oedd o ddiddordeb iddynt. Roedd hi'n adnabod eu hanghenion unigol a'r hyn roeddent yn ei hoffi. Er enghraifft, dywedodd wrthym fod y plant wedi gofyn am ragor o weithgareddau crefft ar ôl ysgol, a'r gweithgaredd a drefnwyd yn ystod wythnos yr arolygiad oedd creu doli tylwyth teg. Gwnaeth y gwarchodwr plant sicrhau bod gweithgareddau'n hyrwyddo chwarae a dysgu'r plant, ond ni chadwodd unrhyw gofnodion datblygu. Drwy wneud hynny, gallai'r gwarchodwr plant wella canlyniadau'r plant drwy olrhain eu cynnydd a defnyddio'r wybodaeth i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu chwarae a'u dysgu.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu gweithgareddau diddorol i'r plant, ond gallai wella eu profiadau chwarae a dysgu drwy gadw cofnodion ysgrifenedig o'u datblygu.

## 3.Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Darperir amgylchedd glân, diogel a chroesawgar i'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu detholiad o adnoddau sy'n hybu chwarae a dysgu'r plant. Mae'r ffordd y caiff yr adnoddau eu gosod yn hyrwyddo annibyniaeth y plant. Gellid gwella diogelwch y plant drwy gwblhau asesiadau risg ysgrifenedig a gwneud newidiadau bychain yn yr amgylchedd.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Ar y cyfan, mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd diogel i'r plant.

Roedd yr amgylchedd yn lân ac mewn cyflwr da ac roedd y safle yn ddiogel gan fod y prif ddrws wedi'i gloi ac roedd yr ardal awyr agored yn amgaeedig. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym sut roedd hi'n cadw'r plant yn ddiogel ac nad ydynt yn cael eu gadael heb oruchwyliaeth, ond nid oedd unrhyw asesiadau risg ysgrifenedig ar waith. Gwnaethom drafod rhai materion diogelwch â hi, a gwnaethom ofyn iddi gadw deunyddiau glanhau yn ddiogel, gan eu bod yn cael eu stori mewn cwpwrdd dan y sinc heb ei gloi ar hyn o bryd. Hefyd, gwnaethom drafod materion diogelwch eraill, a gwnaethom ofyn iddi gloi'r giât gefn pan fyddai'r plant yn mynd allan i chwarae, symud poteli allan o gyrraedd y plant ac asesu'r risg o'r plant yn cael niwed os byddai'r gwydr yn y cwpwrdd yn y gegin yn torri.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol bod angen gwella rhywfaint er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd glân ac addas i'r plant chwarae a dysgu.

Roedd y plant yn defnyddio llawr gwaelod yr eiddo yn bennaf, ac roedd digon o le ar gael iddynt chwilota a symud o gwmpas. Roedd un ystafell wely lan lofft yn cael ei defnyddio os byddai plentyn angen cysgu. Roedd hi'n hawdd i'r plant fynd allan i chwarae mewn gardd amgaeedig ac roeddent yn teimlo'n gartrefol gan fod eu gwaith crefft wedi'i arddangos. Roedd yr amgylchedd yn hyrwyddo annibyniaeth y plant wrth i begiau lefel isel gael eu gosod er mwyn hongian cotiau a bagiau arnynt, ac roedd toiled a chyfleuster golchi dwylo ar y llawr gwaelod. Roedd pob ardal a ddefnyddir gan y plant yn lân ac mewn cyflwr da.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd sy'n cefnogi eu datblygiad.

## 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a’r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu adnoddau sy'n addas i oedran y plant a'u camau datblygu.

Gwnaeth y gwarchodwr plant sicrhau fod digon o adnoddau ar gael er mwyn i'r plant ddewis weithgaredd o'u dewis. Roedd teganau a chyfarpar yn addas i oedran y plant, ac roeddent yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd dodrefn cyfforddus a chartrefol yn sicrhau y gallai'r plant ymlacio, ac roedd y plant iau yn ei ddefnyddio i helpu iddynt sefyll a symud o gwmpas. Eisteddodd y plant gyda'i gilydd wrth fwrdd y gegin i fwyta eu byrbrydau a'u prydau, ac roedd dodrefn lefel isel yn yr ystafell chwarae yn eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau pen bwrdd. Defnyddiodd y gwarchodwr plant wahanol ddeunyddiau a gweadau i hyrwyddo profiadau chwarae'r plant, er enghraifft roedd y plant hŷn wedi dysgu sut i wneud tylwyth teg drwy ddefnyddio pegiau pren, ac roeddent wrth eu bodd â'r canlyniad terfynol.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod adnoddau ac offer yn briodol ar gyfer camau datblygu'r plant.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae gan y gwarchodwr plant weledigaeth glir, ac mae'n bwriadu darparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion y plant a'r rhieni. Ar y cyfan, mae'r gwarchodwr plant yn rheoli adnoddau'n dda, ond mae angen sicrhau bod pob person dros 16 oed yn meddu ar dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, fel sy'n ofynnol yn ôl y rheoliad. Mae'r gwarchodwr plant yn adolygu ei gwasanaeth bob blwyddyn ac mae ganddi gydberthnasau da â'r rhieni.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r gwarchodwr plant wedi rhoi systemau ar waith i reoli'r gwasanaeth.

Roedd datganiad o ddiben y gwarchodwr plant yn sicrhau bod y rhieni'n cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn penderfynu a yw'r gwasanaeth yn diwallu eu hanghenion nhw a'u plentyn. Roedd y gwarchodwr plant yn cadw'r cofnodion gofynnol, megis cofnodion presenoldeb dyddiol ar gyfer y plant a gwybodaeth yn gysylltiedig â'r plant, eu hanghenion a'u dewisiadau. Roedd y gwarchodwr plant wedi llunio polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas â'r gofal mae'n ei ddarparu, ac yn cadw'r holl wybodaeth am ei gwasanaeth yn ddiogel i gynnal cyfrinachedd y rhieni a'u plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei gwasanaeth yn briodol.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae gan y gwarchodwr plant brosesau da ar waith i werthuso'r gwasanaeth a gwneud gwelliannau.

Roedd y gwarchodwr plant wedi llunio adroddiad ar ansawdd y gofal a oedd yn dangos ei bod wedi ceisio adborth gan y rhieni a'u plant ynglŷn â'i gwasanaeth. Gwnaeth y rhieni sylwadau cadarnhaol ar y gwasanaeth, a chadarnhawyd hyn pan wnaethom siarad â'r rhieni. Gwnaeth un rhiant ddweud bod ei phlentyn wedi setlo'n dda a'i bod yn hapus iawn â'r gofal a ddarperir. Gwnaeth y gwarchodwr plant adolygu eu harferion a, lle y bo modd,

gwnaeth newidiadau er mwyn gwella'r gofal y mae'n ei ddarparu. Roedd yn braf gweld bod y gwarchodwr plant wedi gweithredu ar sylw gan y plant am yr hyn yr hoffent ei wneud.

Mae'r gwarchodwr plant yn ystyried yr adborth a dderbynnir gan y rhieni a'u plant, ac yn gwneud newidiadau cadarnhaol er mwyn datblygu'r gwasanaeth.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Ar y cyfan, mae'r gwarchodwr plant yn rheoli adnoddau yn briodol.

Roedd y gwarchodwr plant wedi mynychu cwrs cymorth cyntaf pediatreg a chwrs diogelwch bwyd ac wedi'i gwblhau'n llwyddiannus, sy'n dangos ei bod yn ymwybodol o arferion cyfredol er mwyn gwella'r gofal a roddir i'r plant. Roedd y gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod hi ac un person arall sydd dros 16 oed yn meddu ar dystysgrifau dilys a chyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Atgoffwyd y gwarchodwr plant fod angen i drydydd oedolyn gwblhau gwiriad DBS hefyd, gan fod yr un sydd ar waith ar hyn o bryd drwom ni (AGC) wedi dod i ben yn 2017. Gwnaethom esbonio ein gweithdrefnau DBS newydd i'r gwarchodwr plant, a chynghorwyd iddi ddefnyddio'r wybodaeth o'n gwefan mewn perthynas â'r hyn sy'n ofynnol iddi ei wneud er mwyn sicrhau bod y gwiriadau hyn yn cydymffurfio â'n rheoliadau.

Rhaid i'r gwarchodwr plant gyflawni un gwelliant er mwyn cyflawni ei rôl mewn perthynas â rheoli adnoddau'n effeithiol.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r gwarchodwr plant wedi sefydlu partneriaethau cadarnhaol gyda'r rhieni.

Roedd y rhieni, fel partneriaid, yn cael eu hysbysu'n llawn am lesiant eu plentyn. Roedd y gwarchodwr plant yn rhoi manylion rheolaidd iddynt am gyfnod eu plentyn yn ei gofal, ar lafar ar gyfer pob plentyn a thrwy gofnodion ysgrifenedig dyddiol ar gyfer y plant iau. Hefyd, rhoddodd y rhieni wybodaeth ysgrifenedig ac ar lafar iddi am eu plentyn cyn i'w plentyn ddechrau, gan olygu bod y gwarchodwr plant yn gwybod beth oedd hoff bethau a chas bethau'r plant, eu dewisiadau a'u trefn ddyddiol. Roedd y gwarchodwr plant yn mynd â'r plant am dro yn lleol, a oedd yn helpu i ehangu eu gwybodaeth am y byd o'u hamgylch ac yn eu galluogi i deimlo'n rhan o'r gymuned.

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio gyda'r rhieni er budd y plant.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn

Gwnaethom hysbysu'r gwarchodwr plant nad oedd yn cydymffurfio â'r rheoliad canlynol o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010. Ni wnaethom ystyried hyn yn fater difrifol ar ddiwrnod yr arolygiad, gan nad oedd yn effeithio ar ofal y mae'r plant yn ei gael. Tynnwyd sylw'r gwarchodwr plant at y mater hwn er mwyn iddi ymdrin ag ef.

Nid oedd y gwarchodwr plant yn cydymffurfio â Rheoliad 20 4 (a) o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010. Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod pob person sy'n 16 oed sy'n byw yn yr eiddo yn meddu ar dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, fel sy'n ofynnol.

### 5.3 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell y gallai'r gwarchodwr plant wneud y canlynol;

- Cynnal cofnodion datblygu ar gyfer y plant dan 8 oed, a chofnodi ei sylwadau ar gynnydd y plant er mwyn cynllunio ar gyfer eu chwarae a'u dysgu yn y dyfodol;
- cwblhau asesiadau risg ysgrifenedig ar yr ardaloedd a ddefnyddir gan y plant a phan fyddant yn mynd i ffwrdd o'r lleoliad. Hefyd, dylai'r gwarchodwr plant ymdrin â'r materion diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad;
- adolygu'r polisi rheoli ymddygiad er mwyn iddo adlewyrchu'r strategaethau a ddefnyddir i reoli ymddygiad yn gywir
- cadw cofnodion ysgrifenedig o ymarferion tân a phrofion larymau tân.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 15 Tachwedd 2018 rhwng 14.00 a 17.23.

Gwnaethom:

- Archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- arsylwi ar y plant a'r gofal a roddwyd;
- siarad â'r gwarchodwr plant, y plant a dau riant;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant a'r adnoddau;
- ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gan y gwarchodwr plant yn ei Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth; yr Adroddiad ar Ansawdd y Gofal a'r Datganiad o Ddiben;
- rhoi adborth ar ein canfyddiadau i'r gwarchodwr plant.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr Plant** |
| **Person Cofrestredig** | **Delyth Hughes** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **6** |
| **Ystod oedran y plant** | **Geni hyd at 12 oed** |
| **Oriau agor** | **Dydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 08.00 a 17.00** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC** | **16 Tachwedd 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **15 Tachwedd 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar hyn o bryd ond mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymreig.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

Ni chafwyd unrhyw gofnodion diffyg cydymffurfio mewn statws Agored.